7 Tachwedd 2024

Annwyl

ATISN 22021: Cynllun yr Iaith Gymraeg, Patagonia

**Y cais**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 14 Hydref 2024. Gofynnwyd am y canlynol:

Copi o fantolenni ariannol diwedd y flwyddyn, sy'n cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer Cynllun yr Iaith Gymraeg, Patagonia, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019-20, 2020-21, 2021-22, 2022-23 a 2023-24, sy'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- nawdd a dderbyniwyd i redeg y prosiect gan Lywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig a Chymdeithas Cymru-Ariannin, a
- pob math o daliadau a wneir gan y prosiect, gan gynnwys:
    - Hediadau rhyngwladol a mewnol i'r dalgylch, costau fisa/DNI ac yswyriant iechyd yr athrawon o Gymru.
    - Cyflogau'r athrawon o Gymru
    - Cyflogau'r cydlynwyr
    - Cyfraniadau at athrawon lleol a thiwtoriaid
    - Cyfraniadau at waith unigolion sy'n datblygu adnoddau
    - Costau at ysgoloriaethau, adnoddau
    - Costau gweinyddu'r prosiect
    - Unrhyw gostau eraill a wnaed yn ystod y cyfnod hwn.

**Ein hymateb**

Nid oes gan Lywodraeth Cymru gopïau o fantolenni'r prosiect, ac nid ydym ychwaith yn cadw gwybodaeth am y rhan fwyaf o'r categorïau o daliadau rydych wedi'u nodi. Mae'r rhain yn cael eu cadw gan British Council Cymru.

Er nad ydym yn cadw'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani, mae gennym rywfaint, sef swm y cyllid a ddarperir i'r prosiect bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn cadw rhywfaint o wybodaeth am symiau o gyllid a ddarparwyd gan sefydliadau eraill i'r prosiect mewn blynyddoedd penodol.

Mae'r wybodaeth sydd gennym wedi'i chynnwys yn y tabl isod:

| Blwyddyn Ariannol | Cyllid Llywodraeth Cymru | Cyfraniadau gan sefydliadau eraill |
|---|---|---|
| 2019-20 | £55,000 | British Council Cymru £15,000.<br>Sefydliadau eraill gan gynnwys Cymdeithas Cymru-Ariannin: £10,000 |
| 2020-21 | £55,000 | Dim gwybodaeth yn cael ei chadw |
| 2021-22 | £48,500 | Dim gwybodaeth yn cael ei chadw |
| 2022–23 | £66,149 | Cymdeithas Cymru-Ariannin: £5,000 |
| 2023-24 | £60,208 | Dim gwybodaeth yn cael ei chadw |

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir